Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

---

Dyddiad | Date: 27 Mai 2020

Pwnc | Subject: **Effaith COVID-19 ar addysg uwch ac addysg bellach**

Annwyl Russell,

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (PPIA) wrthi'n trafod effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys myfyrwyr mewn addysg uwch ac addysg bellach.

Yn gynharach y mis hwn, cytunodd y Pwyllgor PPIA ar raglen waith i gasglu tystiolaeth gan randdeiliaid, a hynny gan flaenoriaethu'r meysydd a ganlyn fel cam cyntaf:

- effaith COVID-19 ar blant sy'n agored i niwed;
- effaith COVID-19 ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc; ac
- **effaith COVID-19 ar addysg uwch ac addysg bellach**.

Disgwylir i sesiwn y Pwyllgor ar effaith COVID-19 ar addysg uwch ac addysg bellach gael ei chynnal brynhawn dydd Mawrth 23 Mehefin. O gofio diddordeb Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (ESS) mewn sgiliau, ymchwil ac arloesi, ac i reoli'r galw ar amser y rhanddeiliaid perthnasol, hoffwn estyn gwahoddiad i chi, fel Cadeirydd, a chynrychiolydd arall o'r Pwyllgor, pe dymunant fod yn bresennol, i gymryd rhan yn ein cyfarfod.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai Clerc eich Pwyllgor gysylltu â Chlerc ein Pwyllgor ni i gadarnhau a hoffai unrhyw gynrychiolwyr o'r Pwyllgor ESS gymryd rhan yn ein cyfarfod.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565